Diwygio deddfwriaeth ar gyfer ADY/AAA

ALN/SEN Reform

Beth yw'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) newydd?

- Y system ADY yw'r system gymorth statudol newydd i blant a phobl ifanc 0 i 25 oed yng Nghymru sydd ag ADY. Bydd yn dod i rym ym mis Medi 2021.Fe fydd y ddeddf yn:
- Dod a holl drefniadau presennol at ei gilydd i greu un system ar gyfer dysgwyr a AAA
- Helpu dysgwr sydd i arwain y broses a lleisio barn.
- Sicrhau bod gan pob dysgwr yr un hawliau be bynnag ei oed neu ei sefydliad addysgol
- Gwella pontio rhwng sefydliadau
- Sicrhau darpariaeth yn y Gymraeg
- Sicrhau tegwch i bawb

Sut fydd hyn o fantais i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr?

- Fe fydd y ddeddf newydd yn sicrhau:

- Bod dysgwyr ym medru cael y cymorth anghenrheidiol llawer yn gynt
- Bod y dysgwyr yn ganolig wrth penderfynnu pa fath o gymorth sydd angen arnynt
- Eu bod ym medru dod o hyd i wybodaeth yn haws.
- Bod y dysgwyr yn cael eu cefnogi os oes unrhyw anghytuno.
- Fe fydd dysgwyr yn medru derbyn cefnogaeth am gyfnodau hirach, gan fod y ddeddf yn cynnwys dysgwyr o 1-25 blwydd oed

Y Ffeithiau

- Bydd un system ddeddfwriaethol yn ymwneud â'r cymorth a roddir i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac sy'n derbyn addysg a/neu hyfforddiant.
- Os bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, rhaid cofnodi hynny yn y CDU a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.
- Bydd y Cod ADY yn sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag ADY weithredu o'u mewn.
- Bydd gan bob plentyn, ei rieni/gofalwyr a phobl ifanc hyd at 25 yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach mewn perthynas ag ADY neu CDU. Rhaid cynnig gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc.
- Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli'r gwahanol gynlluniau statudol ac anstatudol presennol ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol neu'n iau, yn ogystal ag ar gyfer dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion neu addysg bellach. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a pharhad, a bod darpariaeth a hawliau'n cael eu diogelu, pa bynnag mor ddifrifol neu gymhleth
- Bydd plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn cael cymorth i ddeall a chymryd rhan yn y penderfyniadau a gymerir sy'n effeithio arnynt. Dylid hefyd rhoi sicrwydd priodol iddynt, a chynnig cyfleoedd iddynt godi unrhyw bryderon a sicrhau bod eu cwestiynau'n cael eu hateb.
- Os nad yw plentyn, ei rieni/gofalwyr neu berson ifanc yn hapus â phenderfyniadau a wnaed gan ysgol ynghylch ADY neu CDU, gallant wneud cais i'r awdurdod lleol er mwyn iddynt gael eu hadolygu neu eu hailystyried
- Lle bo angen, bydd CDUau yn cynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y cytunwyd arni gan wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill, yn ogystal ag addysg. Bydd CDUau yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflenwi'r elfennau unigol.

Sut fydd e'n gweithio a pryd?

Fe fydd y ddeddf newydd yn cael ei weihtredu fesul cam dros y 3 blynedd nesaf.

Golyga hyn fe fydd 2 system yn gweithio o Medi 2021-2024 – yr hen system AAA a'r system newydd ADY

O Mis Medi 2021 fe fydd yn statudol i gynnwys plant Meithrin,Blwyddyn 1,3,a 5

Beth sydd yn digwydd nawr a beth sydd yn mynd i newid?

- Ar hyn o bryd. Efallai bod gan plant a pobl ifanc sydd ag anhawster dysgu neu sydd a anabledd :
- Cynllun addysg unigol (IEP/CAU)
- Datganiad
- Cynllun dysgu a sgiliau (dros16 oed)

- Fe fydd anghenion dysgu y plant a pobl ifanc yma yn parhau I dderbyn cymorth o fewn yr ysgol drwy gynllunio manwl,gwahaniaethu effeithiol,defnydd o adnoddau,gosod targedau o fewn eu cyrraedd.
- Ond fe fydd rhai plant a phobl ifanc yn methu diwallu eu anghenion dysgu drwy ymyrraeth ysgol yn unig ac fe fydd rhaid iddynt dderbyn darpariaeth mwy penodol.Fe fydd y plant yma yn cael CAU /IDP

Beth yw Cynllun datblygiad personol/IDP ?

- Mae IDP yn cael ei greu gyda drafodath rhwng y plentyn,rhiant neu ofalwr,ac asiantaethau eraill sydd ynghlwm ar plentyn e.e Iechyd,Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Fe fydd yr IDP yn dweud yn glir beth sydd angen ar yr unigolyn I fod ym medru dysgu.
- Fe fydd yn ystyried:
- Beth sydd yn bwysig iddynt ac ar ei cyfer?
- Disgrifiad o'u anghenion
- Beth fydd yn cael ei wneud er mwyn ei cynhowrthwyo yn yr ysgol ar darpariaeth addysgol sydd ei angen I gwrdd a'u wnghenion.
- Fe fydd y cynllun yn cael ei adolygu pob 12 mis(neu yn gynt os oes angen)
- Gall IDP cael ei greu neu ei weithredu gan ysgol/coleg neu'r awdurdod lleol.Mae'r hyn sydd wedi ei ysgrifennu am sut fydd yr ysgol yn cwrdd a anghenion y plentyn yn gyfrerithol – a fe fydd rhaid ei weithredu yn ol y gyfraith.
- Yn ystod y 3 mlynedd nesaf fe fydd IDP yn cymryd lle Datganiadau,CAU(IEP) a cynlluniau dysgu a sgiliau.

Beth yw Cyfarfod Plentyn Canolog?

Rol Newydd yr ysgol!

- Pam mae ysgol yn dod i ddeall fod posibilrwydd bod gan blentyn neu person ifanc ADY yn yr ysgol.Mae rhaid iddynt ddilyn llinnell amser ac yna cyhoeddi os oes gan y plentyn yma ADY neu beidio.

Siaradwch gyda'r ysgol!!

- Os oes gennych chi fel plentyn neu riant ofid neu pryder,Plis rhannwch eich gofidiau gyda 'r ALNCO neu Athro dosbarth.
- Fe fydd yr ysgol yn fwy na pharod i :
- Wrando ar eich pryderon.
- Cynnwys eich syniadau a thrafod
- Casglu gwybodaeth a trefnu cynllun i symud ymlaen.

Beth sydd yn digwydd os mae anghytuno?

- Os ydych yn anghytuno gyda penderfyniad yr ysgol neu yr awdurdod lleol dylech chi gysylltu efo swyddog penodol o'r Sir.Ei swydd nhw i'w i drafod a ceisio dod i gytundeb derbyniol.

Manylion cyswllt

- Cydlynydd Anghenion dysgu ychwanegol
- Wendywylie@ysgolmynyddbychan.cardiff.sch.uk
- 02920613417
- Snap Cymru 08088010608
- Tribiwnlys ADY Cymru 0300 025 9800
- Tribunal.enquiries@gov.wales
- Os ydych yn anhapus gyda unrhyw agwedd o ADY cysylltwch ar ysgol yn syth er mwyn ceisio datrys unrhyw broblem neu ofid yn gynnar.